TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.4

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru. Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ........ 1
Strwythur y Cymhwyster ........ 2
Asesiad ........ 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 1 ........ 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ........ 3
Trosolwg o Uned 1 Modern Cynnar: Opsiwn 1.4 Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660 ........ 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.4 Modern Cynnar: Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660 ........ 5
Profiadau Dysgu ........ 22
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 23
Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 1.4 Modern Cynnar: Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660 ........ 30

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Asesiad

### Crynodeb o'r Asesu Uned 1

| |
|---|
| **Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**<br>***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.<br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197<br>**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–tua 1416<br>**Modern Cynnar**<br>**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547<br>**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603–tua 1660<br>**Modern**<br>**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892<br>**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Modern Cynnar: Opsiwn 1.4 Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn amser. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r gwrthdaro rhwng brenhinoedd Stiwartaidd cynnar a'r Senedd, ac effaith hyn ar Gymru yn ystod y cyfnod rhwng 1603 a tua 1660.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Modern Cynnar | 1.4 | Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660 |
| | 1.4.1 | Teyrnasiad Iago I, 1603-1625 |
| | 1.4.2 | Y symudiad i gyfeiriad Rhyfel Cartref, 1625-1642 |
| | 1.4.3 | Pwysigrwydd Cymru yn y Rhyfel Cartref, 1642-1651 |
| | 1.4.4 | Effaith y Rhyfel Cartref ar Gymru |
| | 1.4.5 | O'r Weriniaeth i'r Adferiad, 1651-1660 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.4 Modern Cynnar: Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

**1.4 Cefndir: Cymru a'r Goron ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg**
(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol).

| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
|---|---|---|---|---|
| • dylanwad cyffredinol gwleidyddiaeth, cefnogwyr a gwrthwynebwyr y Brenin, a ffactorau a ffurfiodd gymdeithas Cymru ac economi Cymru o 1603 ymlaen. | Dealltwriaeth o'r 'Genedl Wleidyddol' (y bobl hynny oedd â dylanwad economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol), y frenhiniaeth a Hawl Ddwyfol Brenhinoedd, yr elitau a rôl y Senedd.<br><br>Cefnogaeth i Iago I gan frenhinwyr, uchelwyr, yr eglwys Anglicanaidd, cefnogaeth o'r Alban a ffefrynnau fel Robert Cecil a George Villier.<br><br>Gwrthwynebiad gan Seneddwyr, Piwritaniaid a Chatholigion. | **Gweithgaredd:**<br>Gan ddefnyddio tasg darllen ar y ffactorau a lywiodd gymdeithas ac economi Cymru, lluniwch fap meddwl.<br><br>Rhannwch (trefnwch) grwpiau yn gefnogwyr a gwrthwynebwyr y Brenin.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr nodi ac esbonio ffactorau wnaeth lywio cymdeithas Cymru fel uno â Lloegr, gwleidyddiaeth, crefydd a'r economi newidiol. | ***Llyfr(au):***<br>*Britain 1603-1760* (gwerslyfr OCR) | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ffactorau wnaeth lywio cymdeithas Cymru fel yr Uno â Lloegr ac integreiddio gwleidyddol, crefydd, economi wledig, masnach a gweithgarwch diwydiannol cynnar, a hunaniaeth ddiwylliannol ac iaith. | Gall dysgwyr nodi cefnogwyr a gwrthwynebwyr y Brenin.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Tasg darllen a deall gyda chwestiynau wedi'u cysylltu â 'Chenedl Wleidyddol' Lloegr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr esbonio 'Cenedl Wleidyddol' Lloegr. | | |
| • arwyddocâd crefydd mewn cymdeithas: grym a dylanwad yr Eglwys, Protestaniaid, Catholigion a chredoau Piwritanaidd newydd yng Nghymru. | Dealltwriaeth o bwysigrwydd crefydd yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod modern cynnar.<br><br>Newid crefyddol o dan y Tuduriaid cyn esgyniad Iago I.<br><br>Goruchafiaeth yr Eglwys Anglicanaidd, dylanwad y Beibl Cymraeg a dechrau anghydffurfiaeth grefyddol. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o newidiadau crefyddol o Ddiwygiad Harri VIII hyd at ddiwedd y Rhyfeloedd Cartref.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pwysigrwydd crefydd yn yr ail ganrif ar bymtheg yng Nghymru ac esbonio'r newidiadau sy'n digwydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i nodi nodweddion tebyg a gwahanol mewn crefydd yng Nghymru a Lloegr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn cymharu crefydd yng Nghymru a Lloegr. | **Gwefan(nau):**<br>Culture and religion in early modern Wales - BBC Wales History | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.4.1 Teyrnasiad Iago I, 1603-1625** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • agwedd Iago I tuag at y teyrnasoedd yr oedd yn eu rheoli, gan gynnwys:<br>  • ei statws fel Iago I o Loegr a Iago VI o'r Alban ond yn cyfeirio at ei hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon<br>  • enwi ei etifeddion yn Dywysog Cymru – Harri yn 1610, a Siarl yn 1616. | Deall y rhesymau pam yr oedd Iago I yn cyfeirio ato'i hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon a pham yr oedd y senedd yn gwrthwynebu hyn.<br><br>Deall pam yr enwodd Iago I Harri a Siarl yn Dywysog Cymru a goblygiadau gwleidyddol hyn. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch dasg darllen i nodi rhesymau pam yr oedd Iago I yn cyfeirio ato'i hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon a pham yr oedd wedi enwi ei etifeddion yn Dywysog Cymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pam cyfeiriodd Iago I ato'i hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon a pam cafodd Harri a Siarl eu gwneud yn Dywysog Cymru a disgrifio'r arwisgiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i nodi'r ymateb i Iago I yn enwi ei etifeddion yn Dywysog Cymru ac yn cyfeirio ato'i hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn esbonio'r ymateb cyfoes i Iago I yn enwi ei etifeddion yn Dywysog Cymru ac yn cyfeirio ato'i hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 11.<br><br>*Shakespeare's Princes of Wales: English Identity and the Welsh Connection* gan M.R. Cull (Rhydychen, 2014), Pennod 4: Princes, Playhouses, and the Politics of Empire: Henry Frederick and the Investiture of 1610.<br><br>**Fideo(s):**<br>King James I: The First Stuart King of England | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • problemau Iago I o ran crefydd yn ei deyrnasoedd, gan gynnwys:<br>• Cynllwyn y Powdwr Gwn yn 1605 a gwrthdaro gyda'r Catholigion<br>• Beibl y Brenin Iago yn 1611 a gwrthdaro gyda'r Piwritaniaid. | Deall gwrthdaro Iago I â Chatholigion i gynnwys gwrthdaro dros gasglu dirwyon reciwsantiaeth a deddfwriaeth yn erbyn Jeswitiaid.<br><br>Deall prif ddigwyddiadau Cynllwyn y Powdwr Gwn. Ystyried y stori draddodiadol a'r posibilrwydd bod y Catholigion wedi'u fframio.<br><br>Deall perthynas Iago I â'r Piwritaniaid gan gynnwys Cynhadledd Llys Hampton a chwblhau Beibl Brenin Iago | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser yn amlinellu'r prif ddigwyddiadau yn cynnwys Iago I a chrefydd yn ystod ei deyrnasiad.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio'r gwrthdaro â'r Catholigion a'r Piwritaniaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trefnwch ffynonellau yn ôl p'un a ydynt yn cefnogi stori draddodiadol y cynllwyn neu'n awgrymu bod y Catholigion wedi'u fframio.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Lluniwch farn ar b'un a gafodd y Catholigion eu fframio ar gyfer Cynllwyn y Powdwr Gwn. | **Fideo(s):**<br>King James I: The First Stuart King of England<br><br>The Gunpowder Plot: Guy Fawkes<br><br>Guy Fawkes and the Gunpowder Plot<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |
| • problemau Iago I o ran rheoli ei deyrnasoedd, gan gynnwys:<br>• perthynas anodd gyda'r Senedd<br>• dibynnu ar ei ffefrynnau gan gynnwys Iarll Salisbury a Dug Buckingham. | Deall y rhesymau dros y berthynas anodd â'r Senedd drwy gydol cyfnodau Seneddau 1604-11, 1614, 1621 a 1624. Y prif faterion fel cred Iago I yn Hawl Ddwyfol Brenhinoedd, braint seneddol, cyllid ac uno.<br><br>Pwysigrwydd gweinyddol a gwleidyddol Robert Cecil, Iarll Salisbury ac effaith Dug Buckingham fel un o ffefrynnau Iago I. | **Gweithgaredd**:<br>Defnyddiwch dasg darllen i nodi'r materion ym mhob un o seneddau Iago I ac achos y materion. Hefyd, ystyriwch y rhan a chwaraeodd y ffefrynnau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pam yr oedd y berthynas â'r senedd yn anodd a disgrifio dibyniaeth Iago I ar ffefrynnau. | **Fideo(s):**<br>King James I: The First Stuart King of England<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A Monarchy Transformed: Britain 1603-1714* by M Kishlansky | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Dadl dosbarth ar effeithiolrwydd Iago I wrth iddo ymdrin â'r senedd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effeithiolrwydd y ffordd yr oedd Iago I a'i ffefrynnau yn delio â'r senedd. | *James VI and I and His English Parliaments* by C Russell<br><br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.4.2 Y symudiad i gyfeiriad Rhyfel Cartref, 1625-1642** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • digwyddiadau Llywodraeth Bersonol Siarl I, gan gynnwys:<br>• anawsterau wrth geisio codi arian heb Senedd trwy Dreth Llongau a dulliau eraill<br>• Archesgob Laud a'r materion crefyddol a arweiniodd at ryfel yn erbyn yr Alban o 1639 ymlaen. | Llywodraeth Bersonol Siarl I (1629-40) pan fu'n llywodraethu heb alw'r Senedd a arweiniodd at ddrwgdeimlad eang ac a gyfrannodd at densiynau gwleidyddol a arweiniodd at Ryfel Cartref.<br><br>Codi arian drwy ddulliau fel y Dreth Longau (ehangu'r dreth i wledydd mewndirol yn 1634, er nad oedd rhyfel gweithredol), adfer yr arfer o werthu monopolïau, benthyciadau a orfodir ar ddeiliaid ariannog yn eu hannog i fenthyca arian i'r goron, Atafaeliad Marchogwriaeth, treth casgen a phwysau, dyledion ffiwdal ac arlwyaeth.<br><br>Diwygiadau crefyddol Archesgob Laud, sut cawson nhw eu hystyried fel ymgais i orfodi unffurfiaeth a sut arweiniodd hyn at densiynau rhwng Siarl I a'r Presbyteriaid Albanaidd. | **Gweithgareddau:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i gwblhau tabl yn edrych ar sut yr aeth Siarl I ati i godi arian.<br><br>Lluniwch linell amser ar y diwygiadau a gyflwynwyd gan Archesgob Laud yn y cyfnod cyn y rhyfel â'r Alban.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r ffyrdd yr aeth Siarl I ati i godi arian yn ystod ei Lywodraeth Bersonol heb y Senedd a gall dysgwyr ddisgrifio'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Archesgob Laud ac esbonio pam yr aethant i ryfel â'r Alban o 1639.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch sgorau Coch, Oren a Gwyrdd i lwyddiant dulliau Iago I o wneud arian. Rhowch resymau dros eich sgorau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso llwyddiant dulliau Iago I o godi arian heb y Senedd. | **Fideo(s):**<br>English Civil War: War of the Three Kingdom<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • digwyddiadau yn arwain at y Rhyfel Cartref, gan gynnwys:<br>• dadleuon gyda'r Senedd dros ariannu'r rhyfel yn yr Alban a delio â gwrthryfel yn Iwerddon yn 1641<br>• y driniaeth a roddwyd i rai o gynghorwyr agosaf Siarl gan y Senedd, gan gynnwys Laud a Strafford. | Siarl I, er yn anfodlon, yn galw'r Senedd oherwydd diffyg cyllid angenrheidiol i gynnal byddin.<br><br>Anghydfodau parhaus dros broses Siarl I o gasglu trethi heb gydsyniad, y Senedd yn galw am fwy o reolaeth dros faterion crefyddol a gwleidyddol, y Gwrthdystiad Mawr (1641) a Deddf y Milisia (1642).<br><br>Cafodd cynghorwyr allweddol Siarl eu targedu gan y Senedd fel symbolau o bolisïau amhoblogaidd y Brenin. Gwrthwynebiad i ddiwygiadau crefyddol Laud o'r Senedd a'i uchelgyhuddiad, ei dreial a'i ddienyddiad. Gweithredoedd y Senedd Faith yn erbyn Strafford, ei gyhuddo o frad, y Ddeddf Adendro a'i ddienyddiad. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o'r berthynas rhwng Siarl I a'r Senedd, llywodraeth bersonol Siarl I a'r Rhyfel Cartref. Ceisiwch gynnwys y driniaeth o gynghorwyr agosaf Siarl.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio y digwyddiadau yn cynnwys y Senedd sy'n dyddio o lywodraeth bersonol Siarl i'r Rhyfel Cartref a disgrifio'r driniaeth o gynghorwyr Siarl.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch sgôr allan o 5 i bob moment allweddol (0 heb unrhyw densiwn, 5 yn llawn tensiwn). Ychwanegwch hyn at ein llinell amser.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio barn ar raddau'r tensiwn ar gyfer pob moment allweddol. | **Gwefan(nau):**<br>English Civil War - War of the Three Kingdoms DOCUMENTARY (youtube.com)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Cymru a'i chefnogaeth i'r brenin yn ystod teyrnasiad Siarl I, gan gynnwys:<br>• dynion dylanwadol o Gymru, gan gynnwys Syr Robert Mansel o Fargam a Syr John Owen<br>• gwŷr Cyngor Cymru a'r Gororau cyn iddo gael ei ddiddymu yn 1641. | Cefnogaeth gan Frenhinwyr o Gymru fel Syr Robert Mansel a Syr John Owen. Rhoddodd Mansel gefnogaeth ariannol a milwrol i achos y brenin er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cymryd rhan uniongyrchol mewn ymladd oherwydd ei oedran. Gwasanaethodd Syr John Owen fel cadlywydd Brenhingar yng Ngogledd Cymru<br><br>Parhaodd arglwydd Herbert o Chirbury yn deyrngar i Siarl I er ei fod yn Llywydd y Cyngor cyn iddo gael ei ddiddymu. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i nodi cefnogwyr allweddol Siarl I yng Nghymru. Ar gyfer pob person dylanwadol dylai dysgwyr gofnodi gwybodaeth allweddol fel enw, oedran, rôl, pwysigrwydd milwrol ac ariannol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr nodi cefnogwyr allweddol Siarl I yng Nghymru ac esbonio pam yr oedd eu cefnogaeth yn bwysig.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i nodi cefnogwyr allweddol Siarl I yng Nghymru. Ar gyfer pob person dylanwadol, dylai dysgwyr gofnodi gwybodaeth allweddol fel enw, oedran, rôl, pwysigrwydd milwrol ac ariannol. Defnyddiwch hyn i benderfynu ai'r senedd neu Siarl I a gafodd y gefnogaeth fwyaf effeithiol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr nodi'r grwpiau hynny na wnaethant gefnogi Siarl I a phenderfynu pwy gafodd y gefnogaeth fwyaf effeithiol. | **Gwefan(nau):**<br>English Civil War: War of the Three Kingdoms<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.4.3 Pwysigrwydd Cymru yn y Rhyfel Cartref, 1642-1651** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • rôl personél milwrol Cymru yn Lloegr, gan gynnwys:<br>• pwysigrwydd cyfraniad y Cymry ym mrwydrau Edgehill a Newbury<br>• defnyddio'r Cymry fel troedfilwyr a bywyd troedfilwr, gan gynnwys, gweithgareddau dyddiol, rheolau ar gyfer milwyr, gwisg ac arfau. | Deall pwysigrwydd cyfraniad Cymru at Frwydr Edgehill a Newbury drwy adnoddau llafur, teyrngarwch, gwŷr meirch a throedfilwyr Cymreig a strategaeth.<br><br>Chwaraeodd troedfilwyr Cymreig ran arwyddocaol yn y Rhyfel Cartref. Cawsant eu tynnu o boblogaethau lleol a gwnaethant chwarae rhan arwyddocaol ym Myddin y Brenhinwyr. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniwch fap sy'n dangos safle milwyr Cymru yn y brwydrau. Defnyddiwch ffynonellau hanesyddol i olrhain lle yr oedd lluoedd Cymru wedi'u lleoli ar faes y gad i esbonio pwysigrwydd strategol eu safleoedd. Defnyddiwch hyn i esbonio pam yr oeddent yn bwysig.<br><br>Anodwch luniad o droedfilwr Cymreig gyda manylion allweddol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pwysigrwydd cyfraniad Cymru i frwydrau allweddol yn y Rhyfel Cartref a disgrifio troedfilwyr Cymreig. Gallai manylion bywyd troedfilwr gynnwys arferion boreol, hyfforddiant, recriwtio, bywyd a dyletswyddau yn y gwersyll, prydau bwyd a gorffwys, arferion gyda'r nos a pharatoi ar gyfer brwydr. | **Llyfr(au):**<br>*The Civil War in Wales* gan William Hughes<br><br>*The Welsh and the Civil War* gan D Stephenson<br><br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>**Fideo(s):**<br>English Civil War: War of the Three Kingdoms | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch yr effeithiolrwydd a'r heriau a wynebwyd gan droedfilwyr Cymreig (ystyriwch yr hyfforddiant a'r ddisgyblaeth o gymharu â'r Fyddin Model Newydd, sut datblygodd rolau yn ystod y Rhyfel Cartref a ph'un a gawsant effaith ystyrlon ar y rhyfel.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effeithiolrwydd troedfilwr Cymreig. | | |
| • pwysigrwydd strategol Cymru fel cadarnle Brenhinol, gan gynnwys:<br>  • Siarl I yn defnyddio cestyll, gan gynnwys Harlech a Rhaglan, fel canolfannau strategol<br>  • defnyddio llwybrau drwy Gymru er mwyn sicrhau cefnogaeth y Catholigion yn Iwerddon. | Deall sut yr aeth y Goron ati i adnewyddu sawl castell a sicrhau eu bod yn barod i ryfel – Harlech, Rhaglan, Dinbych, Penfro ac ati.<br><br>Gwarchae ar Gastell Harlech a defnyddio cestyll fel canolfannau ar gyfer lansio ymgyrchoedd milwrol.<br><br>Mae Cymru ac Iwerddon yn agos yn ddaearyddol a oedd yn golygu y gellid trawsgludo milwyr ac adnoddau. Roedd porthladdoedd fel Penfro yn gwasanaethu fel man glanio. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch fap i nodi'r cestyll a'r llwybrau ar fap. Dylid defnyddio hyn i esbonio eu pwysigrwydd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pwysigrwydd strategol Cymru yn ystod y Rhyfel Cartref. Dylai hyn gynnwys y defnydd o gestyll ac fel llwybr i Iwerddon.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau cynradd ac ymchwil eilaidd i asesu pwysigrwydd strategol Cymru yn ystod y Rhyfel Cartref. Lluniwch farn ar bwysigrwydd Cymru yn ystod y Rhyfel Cartref. | **Fideo(s):**<br>English Civil War: War of the Three Kingdoms<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>*The Civil War in Wales* gan Terry John (2021)<br><br>*The Civil Wars in Pembrokeshire and the British Revolutions* gan Lloyd Bowen, John Poyer (2020). | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso pwysigrwydd strategol Cymru yn ystod y Rhyfel Cartref. | **Map(iau):**<br>Amlinelliad o fap y DU: Map gwag o'r DU | |
| • arwyddocâd brwydro yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • cynnydd Seneddol allweddol yng Nghymru, gan gynnwys yn Sir Benfro<br>  • Brwydr Sain Ffagan, 1648. | Roedd enillion seneddol allweddol yn Rhaglan (1646), Harlech (1647), Penfro (1648), ynghyd â Gwarchae ar Gaer yn drobwyntiau mawr wnaeth alluogi'r Senedd i sicrhau rheolaeth dros Gymru.<br><br>Arwyddocâd Brwydr Sain Ffagan fel diwedd gwrthryfel y Brenhinwyr yn Ne Cymru. | **Gweithgaredd:**<br>Tasg ymchwilio ar enillion seneddol allweddol gan gynnwys Rhaglan (1646), Harlech (1647), Penfro (1648), Gwarchae ar Gaer. Ymchwiliwch i Frwydr Sain Ffagan hefyd. Defnyddiwch yr ymchwil hwn i lunio llinell amser o enillion seneddol yng Nghymru. Ychwanegwch y manylion hyn i'r map o'r wers flaenorol ar bwysigrwydd strategol Cymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio'r enillion seneddol allweddol yng Nghymru yn y Rhyfel Cartref a disgrifio Brwydr Sain Ffagan.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth yn myfyrio ar sut gwnaeth enillion allweddol y senedd yng Nghymru ddylanwadu ar ganlyniad cyffredinol y Rhyfel Cartref yn Lloegr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd enillion seneddol yng Nghymru ar ganlyniad y Rhyfel Cartref. | **Fideo(s):**<br>English Civil War: War of the Three Kingdoms<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>*The Civil War in Wales* gan Terry John (2021)<br><br>*The Civil Wars in Pembrokeshire and the British Revolutions* gan Lloyd Bowen, John Poyer (2020) | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.4.4 Effaith y Rhyfel Cartref ar Gymru** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • canlyniadau crefyddol y Rhyfel yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• diddymu Eglwys Loegr<br>• Piwritaniaeth a Deddf 1650 i gynyddu ei ddylanwad yng Nghymru. | Deall effaith diddymu Eglwys Loegr ar Gymru. Cafod y llyfr addoli Anglicanaidd ei wahardd a chafodd esgobyddiaeth (llywodraeth gan esgobion) ei ddiddymu. Cafodd Presbyteriaeth ei hyrwyddo a gwelodd Cymru gynnydd yn y mudiadau Annibynnol a Bedyddwyr a oedd wedi bod yn ennill tir cyn y Rhyfel Cartref. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn anghydymffurfiaeth.<br><br>Chwaraeodd Piwritaniaeth ran arwyddocaol yng Nghymru yn dilyn buddugoliaeth y Seneddwyr. Yn sgil Deddf 1650 (Deddf i Wella Taeniad a Phregethu'r Efengyl yng Nghymru) gwaredwyd y Glerigiaeth Frenhinol ac Anglicanaidd, hyrwyddwyd gwerthoedd Piwritanaidd ac anogwyd pregethwyr Cymraeg eu hiaith. Arweiniodd hyn at oruchafiaeth anghydymffurfiaeth yng Nghymru. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o'r newidiadau crefyddol yng Nghymru a ddigwyddodd yng Nghymru cyn ac ar ôl y Rhyfel Cartref.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddeall canlyniadau'r Rhyfel Cartref ar grefydd yng Nghymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i edrych ar raddau'r newid yng Nghymru cyn ac ar ôl y Rhyfel Cartref ac i gymharu â Lloegr. Cyflwynwch ddadl ar raddau'r newid crefyddol yng Nghymru dros y cyfnod hwn ac, mewn cymhariaeth, â Lloegr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso maint y newid yng Nghymru drwy edrych ar y cyfnod cyn ac ar ôl y Rhyfel Cartref ynghyd â chymharu â'r newid crefyddol yn Lloegr. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>*The Civil War in Wales* gan Terry John (2021<br><br>*The Civil Wars in Pembrokeshire and the British Revolutions* gan Lloyd Bowen, John Poyer (2020<br><br>**Gwefan(nau):**<br>February 1650: An Act for the better Propagation and Preaching of the Gospel in Wales, and redress of some Grievances | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • canlyniadau cymdeithasol y Rhyfel yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• yr effaith ar y rhai a fu'n rhan o'r rhyfel, gan gynnwys Menywod Naseby<br>• adeiladu ystadau newydd ar dir a atafaelwyd, gan gynnwys datblygiadau Philip Jones o Langyfelach. | Arweiniodd y rhyfel at raniadau o fewn cymunedau yng Nghymru gyda theyrngarwch yn cael ei rannu rhwng Brenhinwyr a Seneddwyr. Cafodd llawer o bobl Cymru eu hadleoli yn sgil y brwydro a'r materion economaidd yn dilyn y Rhyfel Cartref. Rôl Menywod Naseby ym Mrwydr Naseby yn rhoi cymorth fel cogyddion, nyrsys a chyflenwyr, a'r modd y cafodd menywod Brenhingar eu trin ar ôl y frwydr.<br><br>Cafodd tir ei gymryd oddi ar Frenhinwyr a'i werthu neu ei roi i'r rhai a oedd yn deyrngar i'r achos Seneddol. Yn aml, defnyddiwyd y tir i adeiladu ystadau newydd. Helpodd arweinyddiaeth filwrol Philip Jones i ddiogelu De Cymru. Bu'n gweithio'n agos gyda llywodraeth Oliver Cromwell ac roedd yn aelod o Gyngor y Wladwriaeth Roedd ganddo rôl amlwg yn rheoli materion yng Nghymru gan gynnwys gweinyddu ystadau a gymerwyd a gorfodi diwygiadau Piwritanaidd. | **Gweithgaredd:**<br>Cwblhewch dasg ymchwil ar Fenywod Naseby gan ganolbwyntio ar y modd gwnaethon nhw gyfrannu at yr ymladd a'r canlyniadau i'r menywod hyn ar ôl yr ymladd. Dylai ymchwil hefyd edrych ar Philip Jones a'r broses o adeiladu ystadau newydd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio effaith y Rhyfel Cartref ar y rheini a oedd yn rhan o'r rhyfel gan gynnwys Menywod Naseby a datblygiadau Philip Jones.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch y newidiadau i ardaloedd allweddol o Gymru ar fap ar ôl y Rhyfel Cartref.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr nodi newid a pharhad yng Nghymru o ran ystadau a thir. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>**Erthygl(au):**<br>*The road to Farndon Field: explaining the massacre of the royalist women at Naseby*, English Historical Review, 123 (503), 895-923. | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • canlyniadau gwleidyddol i Gymru, gan gynnwys:<br>• cosbi'r Cymry a fu'n ymladd dros y Brenin<br>• yr effaith ar yrfaoedd y teyrnleiddiaid o Gymru. | Deall y gosb i'r Cymry a frwydrodd dros y Brenhinwyr fel cymryd eu hystadau, carcharu, dadryddfreinio gwleidyddol a dienyddiad ar gyfer Brenhinwyr amlwg fel John Poyer. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch dabl o'r Cymry allweddol wnaeth frwydro dros y brenin a'r gosb gawson nhw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio'r gosb a gafodd Cymry a frwydrodd dros y Brenin a thynged y teyrnleiddiaid o Gymry.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ymchwil i lunio ffeil ffeithiau ar fywyd John Poyer a'i ran yn Rhyfeloedd y Rhosynnod.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio gyrfa John Poyer. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.4.5 O'r Weriniaeth i'r Adferiad, 1651-1660** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut yr oedd Cymru'n cael ei llywodraethu yn yr 1650au, gan gynnwys:<br>  • y Gymanwlad ar gyfer llywodraethu heb Frenin<br>  • rheolaeth uniongyrchol gan yr Uwch-Frigadydd Berry yng Nghymru. | Creu'r Gymanwlad ar ôl i Frenin Siarl gael ei ddienyddio a oedd yn cynnwys diddymu'r Frenhiniaeth a Thŷ'r Arglwyddi. Cafodd Lloegr ei datgan yn "Weriniaeth" o dan reolaeth y Senedd, ond yr oedd y gwir bŵer gan Gyngor y Weriniaeth ac Oliver Cromwell.<br><br>Penodwyd James Berry i oruchwylio Cymru. Roedd ei rôl yn cynnwys gorfodi polisïau moesol a chrefyddol y Gymanwlad Biwritanaidd a oedd yn cynnwys casglu trethi, atal cydymdeimlwyr Brenhinol a gorfodi cyfreithiau yn erbyn anfoesoldeb fel meddwdod. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser ar gyfer y cyfnod gweriniaethol rhwng 1651 a 1660 i ddangos sut yr oedd Cymru a Lloegr yn cael eu llywodraethu.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r newidiadau a wnaed gan Oliver Cromwell a'r Uwch-Frigadydd Berry a'r effaith a gawsant ar y ffordd yr oedd Cymru yn cael ei llywodraethu.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch dabl o newid a pharhad drwy gymharu Cymru cyn y Gymanwlad a Chymru yn ystod y Gymanwlad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso maint y newid yng Nghymru yn ystod y Gymanwlad. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 13 | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • gwrthdaro o ran teyrngarwch yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• y bonedd Brenhinol yn gweithio i Bwyllgorau Sirol y Weriniaeth<br>• y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn parhau i gefnogi'r Brenhinwyr. | Roedd y Pwyllgorau Sirol yn hanfodol wrth roi polisïau'r Gymanwlad ar waith ledled Cymru a oedd wedi arfer bod yn gadarnle Brenhinwyr. Bu'n rhaid i'r Brenhinwyr hyn reoli'r broses o ailddosbarthu ystadau a gymerwyd, gorfodi diwygiadau crefyddol a chymdeithasol a sicrhau bod cydymdeimlwyr Brenhinol yn cael eu monitro neu eu dirwyo. Roeddent hefyd yn gyfrifol am gasglu treth y degwm (treth gosbol a godwyd ar gyn Frenhinwyr).<br><br>Parhaodd y gefnogaeth i'r achos Piwritanaidd yng Nghymru er gwaethaf y ffaith eu bod yn cael eu hatal. Llwyddodd llawer o'r bonedd Brenhingar yng Nghymru i gael rhywfaint o ddylanwad. | **Gweithgaredd:**<br>Ychwanegwch golofnau i'r tabl ar y gosb i gefnogwyr Brenhingar i ddangos y bu rhai aelodau o'r bonedd Brenhingar yn gweithio gyda Cromwell ar ôl y Rhyfel Cartref (1.4.4).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pam a sut bu'r bonedd Brenhingar yn gweithio ar gyfer Pwyllgorau Sirol y Weriniaeth a disgrifio'r gefnogaeth barhaus ar gyfer achos y Brenhinwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i fonedd Brenhingar allweddol a nodwch newid a pharhad yn eu bywydau a'u statws cyn ac ar ôl y Rhyfel Cartref.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall bod y bonedd Brenhingar yng Nghymru wedi llwyddo i gael rhywfaint o ddylanwad. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • diwedd yr arbrawf gweriniaethol, gan gynnwys:<br>• Thomas Myddleton yn datgan Siarl II yn wir frenin yn Wrecsam yn 1659<br>• adfer brenhiniaeth y Stiwartiaid yn 1660. | Yn ystod y cyfnod o ansefydlogrwydd gwleidyddol yn dilyn marwolaeth Cromwell, datganodd Thomas Myddleton (a oedd yn arfer bod yn Seneddwr) Siarl II fel y gwir frenin. Mae hon yn foment allweddol yn adferiad y frenhiniaeth.<br><br>Deall y ffactorau allweddol a arweiniodd at yr adferiad fel yr ansefydlogrwydd gwleidyddol ar ôl marwolaeth Cromwell, yr anfodlonrwydd â rheolaeth filwrol, rôl George Monck a Datganiad Breda (1660). | **Gweithgaredd:**<br>Trefnwch y digwyddiadau yn eu trefn gronolegol i amlinellu'r prif ffactorau wnaeth arwain at yr adferiad. Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffynonellau i asesu'r rhesymau dros adfer y Frenhiniaeth Stiwartaidd yn 1660.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddeall y digwyddiadau wnaeth arwain at ddiwedd y Weriniaeth ac adferiad y Frenhiniaeth Stiwartaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Darllenwch Ddatganiad Breda (1660), nodwch yr addewidion allweddol a gwerthuswch eu pwysigrwydd yn yr adferiad. Lluniwch farn ar y prif reswm dros adfer y Frenhiniaeth Stiwartaidd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd Datganiad Breda o ran adfer y Frenhiniaeth Stiwartaidd. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 12<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Text of Declaration of Breda - History Learning Site | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Ymweliad(au) personol â Sain Ffagan yng Nghaerdydd, Llancaiach Fawr, Castell Harlech, Castell Rhaglan, Castell Dinbych a Chastell Penfro.<br><br>Profiadau digidol gan gynnwys taith rithiol o Gastell Harlech a Chastell Rhaglan.<br>Ymweliadau Rhithiol - Caerau Canoloesol \| Cadw |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Mae pŵer a dylanwad yr eglwys a'r gwrthdaro â Chatholigion a Phiwritaniaid yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar oddefgarwch o grefyddau gwahanol.<br><br>Bydd Brwydr Sain Ffagan yn galluogi dysgwyr i brofi empathi.<br><br>Bydd agweddau Cromwell tuag at gredoau gwahanol yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar oddefgarwch o grefyddau gwahanol |
| gweithio ar y cyd | Caiff dysgwyr y cyfle i ddadlau ynghylch effeithiolrwydd Iago I wrth iddo ddelio â'r Senedd yn 1.4.1. Caiff dysgwyr gyfleoedd i fyfyrio, mewn grwpiau, ar sut dylanwadodd yr enillion seneddol allweddol yng Nghymru ar ganlyniad cyffredinol y Rhyfel Cartref yn 1.4.3. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

<table>
<tr><th colspan="2">Llinynnau Cwricwlwm i Gymru</th></tr>
<tr><th colspan="2">Themâu sy'n trawstorri</th></tr>
<tr><td>Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol</td><td>Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Mae Opsiwn 1.4 Modern Cynnar: Mae Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio Cymru a'i chefnogaeth i'r brenin yn ystod teyrnasiad Siarl I, gan gynnwys:<br>• dynion dylanwadol o Gymru, gan gynnwys Syr Robert Mansel o Fargam, Syr John Owen a gwŷr Cyngor Cymru a'r Gororau cyn iddo gael ei ddiddymu yn 1641 (1.4.2)<br>• defnyddio'r Cymry fel troedfilwyr a bywyd troedfilwr, gan gynnwys, gweithgareddau dyddiol, rheolau ar gyfer milwyr, gwisg ac arfau (1.4.3)<br>• defnyddio cestyll, gan gynnwys Harlech a Rhaglan, fel canolfannau strategol gan Siarl I a defnyddio llwybrau drwy Gymru fel ffyrdd o sicrhau cefnogaeth gan Iwerddon Gatholig (1.4.3)<br>• enillion Seneddol allweddol yng Nghymru, gan gynnwys yn Sir Benfro, Rhaglan a Harlech a Brwydr Sain Ffagan, 1648 (1.4.3)<br>• newidiadau yng Nghymru yn dilyn y Rhyfel Cartref yn Lloegr fel crefydd a chosb ar gyfer cefnogwyr Brenhingar (1.4.4)<br>• sut yr oedd Cymru'n cael ei llywodraethu ar ôl y Rhyfel Cartref, cefnogaeth Frenhingar barhaus yng Nghymru a rôl Cymru yn yr Adferiad. (1.4.5)</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| | |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cynllunio a Threfnu</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Effeithiolrwydd Personol</td><td>Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 1.4 Modern Cynnar: Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Treth y Degwm | Treth gosbol a godwyd ar gyn Frenhinwyr. |
| Ffefryn | Defnyddiwyd y term ar gyfer unigolion y dirprwywyd pŵer gwleidyddol arwyddocaol iddynt gan reolwr. |
| Seneddwr | Cefnogwr y Senedd yn y Rhyfel Cartref yn Lloegr; Pengrynwr. |
| Piwritan | Aelod o grŵp o Brotestaniaid o Loegr ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg a oedd yn ystyried bod Adferiad yr Eglwys o dan Elisabeth I yn anghyflawn ac a oedd yn awyddus i symleiddio a rheoleiddio mathau o addoli. |
| Gweriniaeth | Gwladwriaeth heb frenin etifeddol yn bennaeth arni. |
| Adfer | Y weithred o ddychwelyd rhywbeth i gyn berchennog, lle neu gyflwr. Yn yr achos hwn, dychwelyd y wlad i frenhiniaeth. |
| Brenhinwr | Person a oedd yn cefnogi hawl y brenhinoedd i reoli'r wlad. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.